



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2010 Rhif 2922 (Cy. 243)**

**2010 No. 2922 (W.243)**

**BWYD, CYMRU**

**FOOD, WALES**

Rheoliadau Cyflasynnau mewn  
Bwyd (Cymru) 2010

The Flavourings in Food (Wales)  
Regulations 2010

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi yng Nghymru Reoliad (EC) Rhif 1334/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyflasynnau a chynhwysion bwyd penodol ac iddynt nodweddion cyflasynnau ar gyfer eu defnyddio mewn bwydydd ac ar fwydydd ac sy'n diwygio Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1601/91, Rheoliadau (EC) Rhif 2232/96 ac (EC) Rhif 110/2008 a Chyfarwyddeb 2000/13/EC (OJ Rhif L354, 31.12.2008, t.34) ("y Rheoliad UE").

1. These Regulations provide for the execution and enforcement in Wales of Regulation (EC) No. 1334/2008 of the European Parliament and of the Council on flavourings and certain food ingredients with flavouring properties for use in and on foods and amending Council Regulation (EEC) No. 1601/91, Regulations (EC) No. 2232/96 and (EC) No. 110/2008 and Directive 2000/13/EC (OJ No. L354, 31.12.2008, p.34) ("the EU Regulation").

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ei bod yn dramgwydd mynd yn groes i ofynion y Rheoliad UE—

2. These Regulations provide that it is an offence to contravene the requirements of the EU Regulation by—

- (a) drwy ddefnyddio cyflasynnau neu gynhwysion bwyd ac iddynt nodweddion cyflasynnau mewn bwydydd neu ar fwydydd os ydynt yn cyflwyno risg i iechyd defnyddwyr neu os yw'r defnydd ohonynt yn camarwain cwsmeriaid (*rheoliad 3(2)(a)*);
- (b) drwy roi ar y farchnad unrhyw gyflasyn neu gynhwysyn bwyd ac iddo nodweddion cyflasynnau neu fwyd y maent yn bresennol ynddo os nad yw'r defnydd ohonynt yn cydymffurfio â'r Rheoliad UE (*rheoliad 3(2)(b)*);
- (c) drwy ychwanegu sylweddau gwaharddedig penodol at fwyd (*rheoliad 3(2)(c)*);
- (ch) drwy ddefnyddio tardd-ddeunyddiau gwaharddedig penodol ar gyfer cynhyrchu cyflasynnau neu gynhwysion bwyd ac iddynt nodweddion cyflasynnau, neu drwy ddefnyddio rhai tardd-ddeunyddiau penodedig heb fod yn unol ag amodau rhagnodedig (*rheoliad 3(2)(ch)*);

- (a) using flavourings or food ingredients with flavouring properties in or on foods if they pose a risk to the health of consumers or if their use misleads consumers (*regulation 3(2)(a)*);
- (b) placing on the market any flavouring or food ingredient with flavouring properties or food in which they are present if their use does not comply with the EU Regulation (*regulation 3(2)(b)*);
- (c) adding certain proscribed substances to food (*regulation 3(2)(c)*);
- (d) using certain proscribed source materials for the production of flavourings or food ingredients with flavouring properties, or using certain specified source materials other than in accordance with prescribed conditions (*regulation 3(2)(d)*);

- (d) drwy roi ar y farchnad neu ddefnyddio rhai cyflasynnau neu dardd-ddeunyddiau penodedig oni chynhwysir hwy yn rhestr awdurdodedig yr UE (*rheoliad 3(2)(d)*);
- (dd) drwy labelu cyflasynnau nas bwriadwyd ar gyfer eu gwerthu i'r defnyddiwr olaf heb i'r labelu fod yn unol â'r amodau a osodir yn y Rheoliad UE (*rheoliad 3(2)(dd)*);
- (e) drwy labelu cyflasynnau a fwriadwyd ar gyfer eu gwerthu i'r defnyddiwr olaf heb i'r labelu fod yn unol â'r amodau a osodir yn y Rheoliad UE (*rheoliad 3(2)(e)*); ac
- (f) drwy fethu â darparu gwybodaeth benodol a phenodedig pan fo hynny'n ofynnol (*rheoliad 3(2)(f)*).

**3. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd—**

- (a) yn dynodi'r awdurdodau sydd â'r ddyletswydd i orfodi'r Rheoliadau hyn a'r Rheoliad UE (*rheoliad 4*);
- (b) yn cymhwyso darpariaethau penodol o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 at ddibenion y Rheoliadau hyn (*rheoliad 5*);
- (c) yn darparu pan na fo bwyd yn cydymffurfio â'r Rheoliad UE i'r graddau y byddai'n dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn i'w roi ar y farchnad, mae hynny i'w drin fel methiant i gydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd at ddibenion ei atafaelu a'i ddifa o dan adran 9 o Ddeddf 1990 (*rheoliad 6*); ac
- (ch) yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Labelu Bwyd 1996 (*rheoliad 7*).

**4.** Mae asesiad effaith rheoleiddiol o ran costau tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn a'r buddiannau tebygol a fydd yn deillio o hynny wedi cael ei baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ac mae ar gael oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW.

- (e) placing on the market or using certain specified flavourings or source materials unless they are included in the authorised EU list (*regulation 3(2)(e)*);
- (f) labelling flavourings not intended for sale to the final consumer other than in accordance with the conditions set out in the EU Regulation (*regulation 3(2)(f)*);
- (g) labelling flavourings that are intended for sale to the final consumer other than in accordance with the conditions set out in the EU Regulation (*regulation 3(2)(g)*); and
- (h) failing to provide certain specified information when required (*regulation 3(2)(h)*).

**3. These Regulations also—**

- (a) designate the authorities having the duty to enforce these Regulations and the EU Regulation (*regulation 4*);
- (b) apply certain provisions of the Food Safety Act 1990 for the purposes of these Regulations (*regulation 5*);
- (c) provide that where food does not comply with the EU Regulation such that it would be an offence under these Regulations to place it on the market, it is to be treated as failing to comply with food safety requirements for the purposes of seizure and destruction under section 9 of the 1990 Act (*regulation 6*); and
- (d) make amendments to the Food Labelling Regulations 1996 (*regulation 7*).

**4.** A regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations has been prepared in relation to these Regulations and is available from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff, CF10 1EW.

**2010 Rhif 2922 (Cy.243)**

**BWYD, CYMRU**

**Rheoliadau Cyflasynnau mewn  
Bwyd (Cymru) 2010**

<i>Gwnaed</i>	<i>7 Rhagfyr 2010</i>
<i>Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i>	<i>9 Rhagfyr 2010</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>20 Ionawr 2011</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a), (e) ac (f), 17(2), 26(1)(a) a (b) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(2).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

**2010 No. 2922 (W.243)**

**FOOD, WALES**

**The Flavourings in Food (Wales)  
Regulations 2010**

<i>Made</i>	<i>7 December 2010</i>
<i>Laid before the National Assembly for Wales</i>	<i>9 December 2010</i>
<i>Coming into force</i>	<i>20 January 2011</i>

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 16(1)(a), (e) and (f), 17(2), 26(1)(a) and (b) and (3) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(1) and now vested in them(2).

In accordance with section 48(4A) of that Act, they have had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency.

---

(1) 1990 p.16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan baragraffau 12 a 21 yn eu trefn o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), "Deddf 1999". Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999, O.S. 2004/2990 ac O.S. 2004/3279.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" (sef, o ran Cymru a Lloegr ac yn gweithredu ar y cyd, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Ysgrifenyddion Gwladol a oedd yn eu trefn yn ymwneud ag iechyd yn Lloegr a bwyd ac iechyd yng Nghymru ac, o ran yr Alban, yr Ysgrifennydd Gwladol), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, ac maent bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

---

(1) 1990 c.16. Section 1(1) and (2) (definition of "food") was substituted by S.I. 2004/2990. Sections 17 and 48 were amended by paragraphs 12 and 21 respectively of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (1999 c.28), "the 1999 Act". Section 48 was also amended by S.I. 2004/2990. Section 26(3) was amended by Schedule 6 to the 1999 Act. Section 53(2) was amended by paragraph 19 of Schedule 16 to the Deregulation and Contracting Out Act 1994 (1994 c.40), Schedule 6 to the 1999 Act, S.I. 2004/2990 and S.I. 2004/3279.

(2) Functions formerly exercisable by "the Ministers" (being, in relation to England and Wales and acting jointly, the Minister of Agriculture, Fisheries and Food and the Secretaries of State respectively concerned with health in England and food and health in Wales and, in relation to Scotland, the Secretary of State) so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by The National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as read with section 40(3) of the 1999 Act and are now vested in the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (2006 c.32).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac sy'n gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(1), cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw tra bu'r Rheoliadau hyn yn cael eu paratoi a'u gwerthuso.

## Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyflwynnau mewn Bwyd (Cymru) 2010, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 20 Ionawr 2011.

## Dehongli

2.--(1) Yn y Rheoliadau hyn--

nid yw "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yn cynnwys awdurdod iechyd porthladd;

ystyr "awdurdod iechyd porthladd" ("*port health authority*") mewn perthynas ag unrhyw ddsbarth iechyd porthladd a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 2(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(2), yw awdurdod iechyd porthladd ar gyfer y dosbarth hwnnw a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 2(4) o'r Ddeddf honno;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "y Rheoliad UE" ("*the EU Regulation*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1334/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n ymwneud â chyflwynnau a chynhwysion bwyd penodol ac iddynt nodweddion cyflwynnau i'w defnyddio mewn bwydydd ac ar fwydydd, ac sy'n diwygio Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1601/91, Rheoliadau (EC) Rhif 2232/96 ac (EC) Rhif 110/2008 a Chyfarwyddeb 2000/13/EC(3);

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol, gan awdurdod bwyd neu awdurdod iechyd porthladd, yn ôl y digwydd, i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(1), there has been open and transparent public consultation during the preparation and evaluation of these Regulations.

## Title, application and commencement

1. The title of these Regulations is the Flavourings in Food (Wales) Regulations 2010, they apply in relation to Wales and come into force on 20 January 2011.

## Interpretation

2.--(1) In these Regulations--

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Food Safety Act 1990;

"the EU Regulation" ("*y Rheoliad UE*") means Regulation (EC) No. 1334/2008 of the European Parliament and of the Council on flavourings and certain food ingredients with flavouring properties for use in and on foods and amending Council Regulation (EEC) No. 1601/91, Regulations (EC) No. 2232/96 and (EC) No. 110/2008 and Directive 2000/13/EC(2);

"authorised officer" ("*swyddog awdurdodedig*") means any person who is authorised in writing, either generally or specifically, by a food authority or as the case may be a port health authority to act in matters arising under these Regulations;

"food authority" ("*awdurdod bwyd*") does not include a port health authority;

"port health authority" ("*awdurdod iechyd porthladd*") means in relation to any port health district constituted by order under section 2(3) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(3), a port health authority for that district constituted by order under section 2(4) of that Act.

(1) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu nifer o offerynnau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC mewn perthynas â'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasu'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu - Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

(2) 1984 p.22.

(3) OJ Rhif L354, 31.12.2008, t.34.

(1) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1. That Regulation was last amended by Commission Regulation (EC) No. 596/2009 of the European Parliament and of the Council adapting a number of instruments subject to the procedure referred to in Article 251 of the treaty to Council Decision 1999/468/EC with regard to the regulatory procedure with scrutiny: Adaptation to the regulatory procedure with scrutiny - Part Four (OJ No. L188, 18.7.2009, p.14).

(2) OJ No. L354, 31.12.2008, p.34.

(3) 1984 c.22.

(2) Mae i unrhyw ymadrodd arall a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn y mae'r ymadrodd Saesneg sy'n cyfateb iddo yn cael ei ddefnyddio yn y Rheoliad UE yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Rheoliad UE.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn rheoliad 3 at Erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliad UE.

### **Tramgwyddau a chosbau**

3.–(1) Bydd person sy'n mynd yn groes i unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau UE a bennir ym mharagraff (2) fel y'i darllenir gyda'r trefniadau trosiannol a geir yn Erthygl 30, neu sy'n methu â chydymffurfio â hi neu â hwy, yn euog o dramgwydd.

(2) Mae'r darpariaethau UE fel a ganlyn–

- (a) Erthygl 4 (amodau cyffredinol ar gyfer defnyddio cyflasynnau neu gynhwysion bwyd ac iddynt nodweddion cyflasynnau);
- (b) Erthygl 5 (gwahardd cyflasynnau nad ydynt yn cydymffurfio neu fwyd nad yw'n cydymffurfio);
- (c) Erthygl 6(1) a (2) (cyfyngiadau ar bresenoldeb sylweddau penodol);
- (ch) Erthygl 7 (cyfyngiadau ar ddefnyddio tardd-ddeunyddiau penodol);
- (d) Erthygl 10 (cyfyngiad sy'n ymwneud â'r rhestr Gymunedol o gyflasynnau a thardd-ddeunyddiau);
- (dd) Erthygl 14(1) (labelu cyflasynnau na fwriedir iddynt gael eu gwerthu i'r defnyddiwr olaf);
- (e) Erthygl 17 (labelu cyflasynnau y bwriedir iddynt gael eu gwerthu i'r defnyddiwr olaf); ac
- (f) Erthygl 19(2) a (3) (rhwymedigaethau hysbysu ar weithredwyr busnesau bwyd).

(3) Mae unrhyw berson a gollfernir o dramgwydd o dan baragraff (1) yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

### **Awdurdodau gorfodi**

4. Dyletswydd pob awdurdod bwyd o fewn ei ardal a phob awdurdod iechyd porthladd o fewn ei ddo-barth yw gweithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn a'r Rheoliad UE.

### **Cymhwyso gwahanol adrannau o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990**

5.–(1) Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu at Ran ohoni i'w ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn–

- (a) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person

(2) Any other expression used in these Regulations and in the EU Regulation has the same meaning in these Regulations as it bears in the EU Regulation.

(3) Any reference in regulation 3 to a numbered Article is a reference to the Article so numbered in the EU Regulation.

### **Offences and penalties**

3.–(1) A person who contravenes or fails to comply with any of the EU provisions specified in paragraph (2) as read with the transitional arrangements contained in Article 30 is guilty of an offence.

(2) The EU provisions are–

- (a) Article 4 (general conditions of use of flavourings or food ingredients with flavouring properties);
- (b) Article 5 (prohibition of non-compliant flavourings or non-compliant food);
- (c) Article 6(1) and (2) (restrictions on the presence of certain substances);
- (d) Article 7 (restrictions on the use of certain source materials);
- (e) Article 10 (restriction relating to the Community list of flavourings and source materials);
- (f) Article 14(1) (labelling of flavourings not intended for sale to the final consumer);
- (g) Article 17 (labelling of flavourings intended for sale to the final consumer); and
- (h) Article 19(2) and (3) (reporting obligations on food business operators).

(3) Anyone convicted of an offence under paragraph (1) is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

### **Enforcement authorities**

4. It is the duty of each food authority within its area and each port health authority within its district to execute and enforce these Regulations and the EU Regulation.

### **Application of various sections of the Food Safety Act 1990**

5.–(1) The following provisions of the Act apply for the purposes of these Regulations with the modification that any reference in those provisions to the Act or Part of it is to be construed as a reference to these Regulations–

- (a) section 20 (offences due to fault of another



arall);

- (b) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy)(1) gyda'r addasiad—
- (i) bod is-adrannau (2) i (4) i fod yn gymwys mewn perthynas â thramgwydd o fynd yn groes i reoliad 3(2)(a) i (e) fel y maent yn gymwys mewn perthynas â thramgwydd o dan adran 14 neu 15, a
  - (ii) y bernir bod y cyfeiriadau at "sale" yn is-adran (4) yn cynnwys cyfeiriadau at "placing on the market";
- (c) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);
- (ch) adran 35(1) (cosbi tramgwyddau)(2), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan baragraff (3)(b);
- (d) adran 35(2) a (3)(3), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan baragraff (3)(c);
- (dd) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol); ac
- (e) adran 36A (tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd)(4).

(2) Wrth gymhwyso adran 32 o'r Ddeddf (pwerau mynediad) at ddibenion y Rheoliadau hyn, dehonglir y cyfeiriadau yn is-adran (1) o'r Ddeddf fel pe baent yn cynnwys cyfeiriadau at y Rheoliad UE.

(3) Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf i'w ddehongli fel pe bai'n cynnwys cyfeiriad at y Rheoliad UE a'r Rheoliadau hyn—

- (a) adran 3 (rhagdybio bod bwyd wedi ei fwriadu i bobl ei fwyta) gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriadau at "sold" a "sale" yn cynnwys cyfeiriadau at "placed on the market" a "placing on the market" yn eu trefn;
- (b) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);
- (c) adran 33(2), gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad o'r fath ag a grybwyllir yn yr is-adran honno fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (b); ac
- (ch) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n

person);

- (b) section 21 (defence of due diligence)(1) with the modification that—
- (i) subsections (2) to (4) are to apply in relation to an offence of contravening regulation 3(2)(a) to (g) as they apply in relation to an offence under section 14 or 15, and
  - (ii) in subsection (4) the references to "sale" are deemed to include references to "placing on the market";
- (c) section 30(8) (which relates to documentary evidence);
- (d) section 35(1) (punishment of offences)(2), in so far as it relates to offences under section 33(1) as applied by paragraph (3)(b);
- (e) section 35(2) and (3)(3), in so far as it relates to offences under section 33(2) as applied by paragraph (3)(c);
- (f) section 36 (offences by bodies corporate); and
- (g) section 36A (offences by Scottish partnerships)(4).

(2) In the application of section 32 of the Act (powers of entry) for the purposes of these Regulations, the references in subsection (1) to the Act are to be construed as including references to the EU Regulation.

(3) The following provisions of the Act apply for the purposes of these Regulations with the modification that any reference in those provisions to the Act is to be construed as including a reference to the EU Regulation and these Regulations—

- (a) section 3 (presumption that food is intended for human consumption) with the modification that the references to "sold" and "sale" are deemed to include references to "placed on the market" and "placing on the market" respectively;
- (b) section 33(1) (obstruction etc. of officers);
- (c) section 33(2), with the modification that the reference to "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" is deemed to be a reference to any such requirement as is mentioned in that subsection as applied by sub-paragraph (b); and
- (d) section 44 (protection of officers acting in

---

(1) Diwygiwyd adran 21 gan O.S. 2004/3279.

(2) Diwygir adran 35(1) gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (2003 p.44), adran 280(2), Atodlen 26, paragraff 42, o ddyddiad sydd i'w bennu.

(3) Diwygiwyd adran 35(3) gan O.S. 2004/3279.

(4) Mewnosodwyd adran 36A gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), adran 40(1), Atodlen 5, paragraff 16.

---

(1) Section 21 was amended by S.I. 2004/3279.

(2) Section 35(1) is amended by the Criminal Justice Act 2003 (2003 c.44), section 280(2), Schedule 26, paragraph 42, from a date to be appointed.

(3) Section 35(3) was amended by S.I. 2004/3279.

(4) Section 36A was inserted by the Food Standards Act 1999 (1999 c.28), section 40(1), Schedule 5, paragraph 16.

ymddwyl yn ddidwyl).

(4) Mae adran 34 o'r Ddeddf (terfyn amser ar gyfer erlyniadau) yn gymwys i dramgwyddau o dan reoliad 3 fel y mae'n gymwys i dramgwyddau y gellir eu cosbi o dan adran 35(2) o'r Ddeddf.

### Condemnio bwyd

6. Os bydd dadansoddydd bwyd yn ardstyio bod unrhyw fwyd yn fwyd y mae'n dramgwydd, o dan y Rheoliadau hyn, ei roi ar y farchnad, rhaid trin y bwyd hwnnw at ddibenion adran 9 o'r Ddeddf (y caniateir i fwyd gael ei atafaelu a'i ddifa ar orchymyn ynad heddwch oddi tani) fel bwyd sy'n methu â chydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd.

### Diwygiadau i Reoliadau Labelu Bwyd 1996

7.–(1) Mae Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(1) yn cael eu diwygio'n unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)–

(a) yn lle'r diffiniad o "the additives regulations" rhodder y canlynol–

"the additives regulations" means the Food Additives (Wales) Regulations 2009, Regulation (EC) No. 1333/2008 of the European Parliament and of the Council on food additives and Regulation 1334/2008 on food flavourings;"

(b) yn lle'r diffiniad o "flavouring" pan y'i defnyddir fel enw rhodder y canlynol–

"the noun "flavouring" bears the same meaning as "flavourings" as defined in Article 3(2)(a) of Regulation 1334/2008 on food flavourings;"

(c) mae'r diffiniadau o "flavouring preparation", "flavouring substance", "process flavouring" a "smoke flavouring" yn cael eu hepgor; ac

(ch) ar ôl y diffiniad o "recommended daily allowance" mewnosoder y diffiniad canlynol–

"Regulation 1334/2008 on food flavourings" means Regulation (EC) No. 1334/2008 of the European Parliament and of the Council on flavourings and certain food ingredients with flavouring properties for use in and on foods and amending Council Regulation (EEC) No. 1601/91, Regulations (EC) No. 2232/96 and (EC) No. 110/2008 and Directive 2000/13/EC;"

(3) Yn rheoliad 14 (enwau cynhwysion)–

(a) yn lle paragraff (5) rhodder y canlynol–

"(5) Subject to paragraph (5A) and to regulation 34B, where an ingredient being a flavouring is added to or used in a food it shall be identified by either–

(1) O.S. 1996/1499. Diwygiwyd rheoliad 14(5) yn flaenorol gan O.S. 2004/249 (Cy.26) ac O.S. 2004/3022 (Cy.261). Diwygiwyd rheoliad 34B gan O.S. 2005/2835 (Cy.200) ac O.S. 2008/1268 (Cy.128).

good faith).

(4) Section 34 of the Act (time limit for prosecutions) applies to offences under regulation 3 as it applies to offences punishable under section 35(2) of the Act.

### Condemnation of Food

6. Where any food is certified by a food analyst as being food which it is an offence under these Regulations to place on the market, that food must be treated for the purposes of section 9 of the Act (under which a food may be seized and destroyed under an order of a justice of the peace) as failing to comply with food safety requirements.

### Amendments to the Food Labelling Regulations 1996

7.–(1) The Food Labelling Regulations 1996(1) are amended in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) In regulation 2(1) (interpretation)–

(a) for the definition of "the additives regulations" substitute the following–

"the additives regulations" means the Food Additives (Wales) Regulations 2009, Regulation (EC) No. 1333/2008 of the European Parliament and of the Council on food additives and Regulation 1334/2008 on food flavourings;"

(b) for the definition of "flavouring" when used as a noun substitute the following–

"the noun "flavouring" bears the same meaning as "flavourings" as defined in Article 3(2)(a) of Regulation 1334/2008 on food flavourings;"

(c) the definitions of "flavouring preparation", "flavouring substance", "process flavouring" and "smoke flavouring" are omitted; and

(d) after the definition of "recommended daily allowance" insert the following definition–

"Regulation 1334/2008 on food flavourings" means Regulation (EC) No. 1334/2008 of the European Parliament and of the Council on flavourings and certain food ingredients with flavouring properties for use in and on foods and amending Council Regulation (EEC) No. 1601/91, Regulations (EC) No. 2232/96 and (EC) No. 110/2008 and Directive 2000/13/EC;"

(3) In regulation 14 (names of ingredients)–

(a) for paragraph (5) substitute the following–

"(5) Subject to paragraph (5A) and to regulation 34B, where an ingredient being a flavouring is added to or used in a food it shall be identified by either–

(1) S.I. 1996/1499. Regulation 14(5) was previously amended by S.I. 2004/249 (W.26) and S.I. 2004/3022 (W.261). Regulation 34B was amended by S.I. 2005/2835 (W.200) and S.I. 2008/1268 (W.128).

- (a) the word "flavouring" or, where more than one such ingredient is used, "flavourings", or
- (b) a more specific name or description of the flavouring; or
- (c) the expression "smoke flavouring(s)" or "smoke flavouring(s) produced from (*insert name of food or food category or source*)" if the flavouring component contains smoke flavouring as defined by Article 3(2)(f) of Regulation 1334/2008 on food flavourings and imparts a smoky flavour to the food.";

(b) yn lle paragraff (6) rhodder y canlynol—

"(6) The word "natural" to describe an ingredient being a flavouring may only be used in accordance with Article 16 of Regulation 1334/2008 on food flavourings as read with Article 30 of that Regulation"; ac

(c) mae paragraffau (7) ac (8) yn cael eu hepgor.

- (a) the word "flavouring" or, where more than one such ingredient is used, "flavourings", or
- (b) a more specific name or description of the flavouring; or
- (c) the expression "smoke flavouring(s)" or "smoke flavouring(s) produced from (*insert name of food or food category or source*)" if the flavouring component contains smoke flavouring as defined by Article 3(2)(f) of Regulation 1334/2008 on food flavourings and imparts a smoky flavour to the food.";

(b) for paragraph (6) substitute the following—

"(6) The word "natural" to describe an ingredient being a flavouring may only be used in accordance with Article 16 of Regulation 1334/2008 on food flavourings as read with Article 30 of that Regulation"; and

(c) paragraphs (7) and (8) are omitted.

## Dirymiadau

8. Dirymir Rheoliadau Cyflasynnau mewn Bwyd 1992(1) a Rheoliadau Cyflasynnau mewn Bwyd (Diwygio) 1994(2) i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru.

## Revocations

8. The Flavourings in Food Regulations 1992(1) and the Flavourings in Food (Amendment) Regulations 1994(2) are revoked in so far as they apply in relation to Wales.

*Gwenda Thomas*

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Deputy Minister for Social Services, under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

7 Rhagfyr 2010

7 December 2010

©© Hawlfraint y Goron 2010

© Crown copyright 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) O.S. 1992/1971.

(2) O.S. 1994/1486.

(1) S.I. 1992/1971.

(2) S.I. 1994/1486.

£5.75

W784/12/10

ON